# Gwybodaeth Ychwanegol at Atebion Gweinidogion

## Gwybodaeth Ychwanegol at OAQ(3)0208(FPS) a gyhoeddwyd gan Ieuan Wyn Jones, y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth, Mawrth 2008

**At Bethan Jenkins:**

Ynglŷn â Chwestiynau'r Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus ar 27 Chwefror, rwy'n ymateb â mwy o fanylion am ein clwstwr Tanwydd Amgen a Thrên Pŵer. Yn ogystal, nodoch yn y siambr fod cyllid ar gael i awdurdodau lleol oddi wrth Lywodraeth y DU ar gyfer technolegau lleihau carbon, ac atebais ynglŷn â'r mater hwn.

Menter sy'n derbyn arian cyfatebol ERDF yw Rhaglen Clystyrau Accelerate, ac mae'n canolbwyntio ar sefydlu a datblygu technolegau sy'n dod i'r amlwg, yn ogystal â nodi ac ymelwa ar farchnadoedd arbenigol yn y Sector Modurol a'r tu hwnt.

Fel rhan o Raglen Clystyrau Accelerate, bu'r Clwstwr Tanwydd Amgen a Thrên Pŵer yn allweddol i ddatblygu technolegau amrywiol sy'n gysylltiedig â lleihau allyriadau o gerbydau.

Cafodd y rhaglen rai llwyddiannau nodedig, gan gynnwys datblygu Bws Midi Cell Danwydd Trydan/Hydrogen, cerbyd newydd sbon cwbl drydanol ar gyfer y ddinas (y ZeCar), yn ogystal â denu Cwmni Moduro Connaught, y tîm sy'n gyfrifol am adeiladu coupé chwaraeon hybrid perfformiad uchel gwyrdd cyntaf y byd, i sefydlu ei bencadlys gweithgynhyrchu byd-eang ac ymchwil a datblygu yng Nghymru.

Rhoddodd y rhaglen gymorth o natur hynod ymarferol i'r cerbyd (o'r enw GWAWR) a gofrestrwyd gan Dr Graham Sparey-Taylor yn Her Ceir Solar y Byd Panasonic, a gynhaliwyd yn Awstralia ym mis Hydref 2007. Adeiladwyd y cerbyd gan ddefnyddio technoleg, sgiliau a chydrannau o Gymru, ac enillodd y wobr am y dull adeiladu mwyaf amgylcheddol-gyfeillgar.

Bu'r rhaglen yn llwyddiannus hefyd wrth arwain gwelliannau mewn safonau technoleg, yn ogystal ag agor marchnadoedd ar gyfer BioDanwyddau, tanwyddau Nwy Cymysg, systemau Storio Hydrogen, Datblygu Batrïau ac Uwch Gynwysyddion.

Sonioch yn benodol am faint o gyllid fydd ar gael gan Lywodraeth y DU ar gyfer cerbydau awdurdod lleol, ac ymholoch faint o gyllid fydd ar gael yng Nghymru yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf. Nid yw Llywodraeth y DU yn rhoi cyllid i awdurdodau lleol mwyach ar gyfer technolegau lleihau carbon, fel y nodoch. Yn y gorffennol, darparwyd cyllid trwy raglen 'Clean Up', a'i estyn i Gymru a'i ariannu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Yn ystod y flwyddyn lawn olaf y bu ar waith, sef 2004/05, darparwyd cymorth grant gwerth tua £715,000. Yn 2006, cynhaliodd yr Adran Drafnidiaeth adolygiad i effeithiolrwydd ac addasrwydd y rhaglen, a phenderfynu nad oedd yn cynnig gwerth addas am arian ac nad oedd yn cydymffurfio â rheolau Cymorth Gwladwriaethol y CE. Yn dilyn hyn, rhoddwyd terfyn ar y rhaglen yng Nghymru a Lloegr, dros dro.

## Gwybodaeth Ychwanegol at OAQ(3)0208(FPS) a gyhoeddwyd gan Ieuan Wyn Jones, y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth, Mawrth 2008

**At Darren Millar:**

Ynglŷn â Chwestiynau'r Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus ar 27 Chwefror, rwy'n ysgrifennu atoch i ateb eich cwestiwn ynglŷn â Rhaglen Adolygu Fflyd Werdd yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni.

Yn gyntaf, ategaf yr hyn a ddywedir gennych wrth gydnabod llwyddiant Rhaglen y Fflyd Werdd yn Lloegr a'r Alban. Rwy'n deall i'r rhaglen gael rhywfaint o lwyddiant wrth helpu i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr o drafnidiaeth.

Bu Swyddogion Trafnidiaeth Cymru yn trafod y cyfle i lansio'r rhaglen yng Nghymru â'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni. Mae'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni wedi cyflwyno cynnig i Lywodraeth Cynulliad Cymru, ac mae fy swyddogion yn ei ystyried. Byddwn yn cyhoeddi ateb i'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni cyn diwedd mis Mawrth 2008.

**Gwybodaeth Ychwanegol at OAQ(3)0208(FPS) a gyhoeddwyd gan Ieuan Wyn Jones, y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth, Mawrth 2008**

**At Mick Bates:**

Ynglŷn â Chwestiynau'r Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus ar 27 Chwefror, rwy'n ysgrifennu i ateb eich cwestiwn ynglŷn â datblygu biodanwyddau trafnidiaeth yng Nghymru.

Byddwn yn parhau i weithio gyda Llywodraeth y DU i symbylu'r farchnad biodanwyddau cynaliadwy. Fel y pwysleisiodd y Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus, mae'r rhan fwyaf o'r dulliau o lunio polisi, mewn gwirionedd, o dan reolaeth Llywodraeth y DU neu'n cael eu gyrru gan y sector masnachol.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cefnogi Rhwymedigaeth Tanwydd Cludiant Adnewyddadwy (RTFO) Llywodraeth y DU, a fydd yn ei wneud yn ofynnol i gyflenwyr tanwyddau trafnidiaeth sicrhau y daw cyfran o'u gwerthiannau o adnoddau adnewyddadwy. Caiff yr RTFO ei chyflwyno ar 1 Ebrill 2008, gyda lefel y Rhwymedigaeth yn cael ei gosod ar 2.5 y cant, gan gynyddu i 5 y cant erbyn 2010-11. Mae Llywodraeth y DU yn awyddus i gynyddu'r Rhwymedigaeth tuag at 10 y cant, yn amodol ar fodloni meini prawf cynaliadwyedd penodol. Mae'r Cyngor Ewropeaidd eisoes wedi arnodi targed gofynnol gorfodol o 10 y cant ar gyfer cyfran y biodanwyddau, yn ôl ynni, a ddefnyddir mewn petrol a diesel trafnidiaeth erbyn 2020. Caiff hyn ei roi ar waith trwy'r Gyfarwyddeb Ynni Adnewyddadwy sydd ar ddod.

Trwy ein rhaglenni grant, gall Llywodraeth y Cynulliad gefnogi ymchwil, datblygu a phrosiectau arddangos mewn ystod o dechnolegau carbon isel. Rydym wedi sefydlu enw da ar gyfer annog technoleg gynaliadwy amgen a datrysiadau ynni amgen, ac mae gennym nifer o sefydliadau academaidd sy'n gweithio ar danwyddau amgen.

Rydym yn ymwybodol o'r pryderon sydd ynglŷn â chynaliadwyedd biodanwyddau cenhedlaeth gyntaf. Byddem yn ceisio canolbwyntio cymorth ar brosiectau a fu'n achosion enghreifftiol o ran cynaliadwyedd; er enghraifft, tanwyddau wedi'u seilio ar borthiant lleol a gynhyrchwyd mewn ffordd gynaliadwy, ac nad ydynt yn cynnwys newid mawr ar ddefnydd tir nac effeithiau andwyol ar fioamrywiaeth.

Ar gyfer biodanwyddau'r ail genhedlaeth, byddem yn ceisio canolbwyntio unrhyw gymorth ar ymchwil a datblygu, yn ogystal â phrosiectau arddangos, sy'n adeiladu ar brofiad a gallu diwydiannol.

**Gwybodaeth Ychwanegol at OAQ(3)0238(FPS) a gyhoeddwyd gan Andrew Davies, y Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus, Mawrth 2008**

**At Chris Franks:**

Yn y Cyfarfod Llawn ar 27 Chwefror, addewais y byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am y cyllid a'r ymrwymiad yn Cymru'n Un i ddarparu o leiaf un nyrs teulu ym mhob ysgol uwchradd.

Mae £4.5m wedi cael ei ddarparu dros dair blynedd i gyflawni'r ymrwymiad hwn. Rydym mewn cyfnod cynnar o ddatblygu polisi, ac nid ydym wedi pennu cwmpas y fenter nyrsys teulu yng Nghymru. Ni ddylid cymryd yn ganiataol y bydd yn dilyn union drefniadau gweddill y DU.

Mae'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cytuno ar broses i ddatblygu gwasanaeth i blant o oedran ysgol sy'n canolbwyntio ar deuluoedd. Y man cychwyn fydd seilio'r gwasanaeth ar dystiolaeth am anghenion plant a phobl ifanc o oedran ysgol a'u teuluoedd drwy gydol y flwyddyn yn hytrach nag yn ystod y tymor yn unig. Mae swyddogion wedi comisiynu Cazbah, cwmni marchnata ac ymchwil sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc, i ganfod yr hyn y mae plant a phobl ifanc am ei gael gan nyrs. Bydd yr ymchwilwyr hefyd yn tynnu gwybodaeth ynghyd o ffynonellau presennol i roi adroddiad ar anghenion a dymuniadau plant a phobl ifanc. Bydd yr wybodaeth hon yn cael ei defnyddio i lywio pedwar digwyddiad i randdeiliaid i'w cynnal yng Nghymru ym mis Ebrill i ystyried y cwmpas posibl ar gyfer gwasanaeth nyrs teulu. Yn y digwyddiadau hyn bydd swyddogion yn nodi'r anghenion i fynd i'r afael â nhw, pwy ddylai fynd i'r afael â'r materion ac ar ba ffurf y dylid cyflwyno'r gwasanaeth. Bydd ymgynghoriad yn cael ei gynnal yn ddiweddarach yn y flwyddyn ar y cynigion fydd yn dod i'r amlwg.

## Gwybodaeth ychwanegol at OAQ(3)0239(FPS) a gyhoeddwyd gan Andrew Davies, y Gweinidog dros Gyllid a Chyflawni Gwasanaethau Cymdeithasol, March 2008

**At Jenny Randerson:**

Yn ystod Cyfarfod Llawn 27 Chwefror, ymgymerais i ysgrifennu atoch gyda gwybodaeth am ddyrannu cyllideb iechyd meddwl 2008-09. Y gyllideb refeniw iechyd meddwl ar gyfer eleni yw £10.982m. Bydd yn cynyddu'n sylweddol yn ystod y blynyddoedd nesaf, i £14.716m, £17.665m ac £20.765m yn y drefn honno ar gyfer y tair blynedd nesaf.

Fel y nodoch, lleihawyd y dyraniad ar gyfer y flwyddyn nesaf o £1.1m ar gam terfynol y gyllideb. Roedd y newid hwn yn adlewyrchu'r penderfyniad gan Weinidogion yng Nghymru a Lloegr i ddechrau darpariaethau Deddf Iechyd Meddwl 2007 yn ddiweddarach nag a ragwelwyd yn wreiddiol. Cafodd y Ddeddf Gydsyniad Brenhinol ym mis Gorffennaf 2007, a'r bwriad yn wreiddiol oedd cychwyn ei darpariaethau ym mis Ebrill 2008. Mae'r dyddiad cychwyn diwygiedig ar gyfer y rhan fwyaf o'r darpariaethau, sef mis Hydref 2008, yn caniatáu mwy o amser i baratoi i'w rhoi ar waith. Trosglwyddwyd yr arian i gynorthwyo â meysydd blaenoriaeth eraill yn y portffolio Iechyd.